# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Medi 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 12

## Sioe flodau a chynnyrch Llandyrnog



Mae sioe flodau a chynnyrch arall wedi bod, ac am sioe dda! Roeddwn yn cael sylwadau ffafriol drwy'r dydd am safon y cynnyrch a pha mor hyfryd oedd y sioe.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a wnaeth y sioe eleni yn gymaint o lwyddiant: i'n Llywydd Mrs Ruth Griffith, D.L., am gyflawni ei dyletswyddau â'r fath urddas; i aelodau'r pwyllgor, yn enwedig Roger ein hysgrifennydd, yr arddangoswyr, y beirniaid, y stiwardiaid, Winnie a Margaret, Alison ac Amy Weyman am drefnu'r sioe gŵn a pheintio wynebau, Anwen ac Ifan am gyfri'r canlyniadau, ac i aelodau Sefydliad y Merched am y lluniaeth fendigedig; heb anghofio noddwyr y dosbarthiadau a'r hysbysebwyr sy'n cyfrannu'n helaeth at y gost o argraffu'r amserlen. Yn olaf, diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r sioe ac a gyfrannodd yn ariannol i wneud y sioe yn un mor llwyddiannus.

*John Rowlands, Cadeirydd*



# Pytiau newyddion y pentre

**Cydymdeimlwn** yn ddwys iawn â Gwilym Evans, Glennydd ar farwolaeth ei wraig, Glenys, gwraig ddiwyd a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i fywyd y pentref ac i Gapel y Dyffryn. Bydd ei hangladd hi yn y capel fore dydd Llun, 11 Medi am 11 o'r gloch. Cydymdeimlwn hefyd â Catrin a'r teulu, Llys Aled, Catrin wedi colli ei nain, Delyth Jones o Fontuchel.

**Llongyfarchiadau** i Rich ac Iona, Hafod y Bryn, ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf. Ganwyd Mabon Llywelyn i Non a Medyr, Caerdydd.

**Diolch:** Dyna ddymuniad Tudor, Julia a theulu'r diweddar Clwyd Hughes, Fferm Llangwyfan, am bob arwydd o gydymdeimlad yn sgil eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael er cof am Clwyd tuag at gynnal a chadw mynwent eglwys St Cwyfan.

### HWB LLANDYRNOG
### PAFILIWN CAE NANT –

Roedd gweld cymaint o ymwelwyr yn mwynhau paned a chacen ym Mhafiliwn Cae Nant ym mis Awst yn braf iawn. Daeth rhai'n ôl yn ddiweddarach, hyd yn oed – roedd hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Bydd y digwyddiad nesaf ddydd Mercher, 20 Medi, 11 y bore tan 5 y pnawn ac mae croeso i chi ddod unrhyw bryd yn ystod yr oriau hynny. Chwiliwch am y posteri a gwybodaeth ar Facebook.

MACMILLAN CANCER SUPPORT

**Coffee morning**

**Saturday 30th September**
**10am at the Village Hall**
**Contributions to home produce stall gratefully received**
**All welcome!**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 4ydd | Trefoil Guild, 2pm<br>Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Mawrth | 5ed | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mercher | 6ed | Cyfarfod yr eglwys, 7pm |
| Mercher | 13eg | Undeb y Mamau, 2pm |
| Mawrth | 19eg | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mercher | 20fed | Tuesday Club 2–3pm |
| Llun | 25ain | Clwb Cwiltio, 7pm |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 2il | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Llun | 4ydd | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Sadwrn | 9fed | Bore coffi – Y Samariaid 10am |
| Sul | 10fed | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 11eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Mercher | 13eg | Adweitheg 5.30-10pm |
| Llun | 18fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Llun | 25ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30-9–pm |
| Sadwrn | 30ain | Bore coffi – Macmillan Cancer Support 10am |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

**Gwasanaethau mis Medi yn Eglwys St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| 3ydd | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 10fed | 11.15 | Boreol weddi |
| 17eg | 11.15 | Boreol weddi |
| 24ain | 11.15 | Cymun bendigaid |

# Terfyn cyflymder newydd

Ar 17eg Medi 2023, bydd terfyn cyflymder 30 mya ar gyfer yr holl ffyrdd yng Nghymru yn gostwng i 20 mya. Ble bynnag y gwelwch chi dair neu fwy o lampau stryd yn un rhes, dylech gymryd yn ganiataol bod y cyflymder yn 20 mya oni bai bod arwyddion yn nodi fel arall. Bydd yna eithriadau, a bydd pob awdurdod lleol yn ystyried pa rai o'i ffyrdd, os o gwbl, fydd yn cael eu heithrio. Er enghraifft, rydw i'n deall bod y cyfyngder 30 mya heibio i Aldi ar gyrion Rhuthun yn un ohonyn nhw. Beth bynnag, wrth weld bod dau ddarn ffres o darmac wedi eu gosod ar y ffordd y naill ben i Landyrnog i ddangos 20 yn glir, yn awgrymu na fydd ein pentre' ni'n cael ei eithrio. Rydw i'n gwybod bod llawer iawn o drafod wedi bod am rinweddau'r cynllun, ond bu cwyno hefyd yn y gorffennol am gyflymder gormodol y traffig drwy'r pentre.

Nid yw Cymru'n eithriad yn hyn o beth, gan fod gan nifer o ardaloedd yn Ewrop gyfyngiad o 30 cilometr yr awr (18.5 mya) a rhai gyda 20 cilometr yr awr (dim ond 12 mya!) mewn rhai mannau gwledig. Cyflwynodd Llundain *'20 is Plenty'* ym Mawrth 2020, ac mae'n nodi bod gostyngiad o 25% wedi bod mewn gwrthdrawiadau traffig a gostyngiad o 63% mewn damweiniau'n ymwneud â cherddwyr.

Mae '20 yn teimlo'n araf' … rydw i'n gwybod, ond mae cyflymder yn medru bod yn gamarweiniol. Rydw i'n cofio bod mewn rali motor-beics a drefnwyd gan Heddlu Greater Manchester yn yr 1980au. Cyn i ni gychwyn reidio mewn grŵp ar draws y rhosydd, dyma nhw'n rhoi cyfres o ymarferion o ran hwyl, (hwyl iddyn nhw neu i ni – dwi ddim yn siwr!). Mewn un prawf, roedd rhaid i ni reidio wrth ochr plismon oedd yn cerdded (oedd ddim yn



hawdd gan ei fod yn cyflymu ac arafu yn ôl ei fympwy!). Ond y dasg nesa oedd gorchuddio'r sbidomedr a theithio'n union ar gyflymder o 30 mya tuag at blismon gyda gwn cyflymder. Roedd pob un ohonom ni'n rhy araf – gan feddwl ein bod yn mynd yn gyflymach nag oeddem ni!

Ar y pegwn arall, meddyliwch pa mor araf mae'n teimlo wrth ddod oddi ar draffordd a gorfod gostwng y cyflymder i 60 mya. Mae cyflymder yn medru bod yn dwyllodrus –dydi *teimlo* ei fod o'n araf ddim o reidrwydd yn golygu ei *fod* o'n araf! Beth bynnag fydd ein barn ni am y cyflymder teithio newydd, mi ddaw yn ddeddf. Os bydd yn achub un bywyd, bydd yn gaffaeliad.

*Gwen Butler*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.




**Oriau agor Swyddfa'r Post**
**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

# Sioe flodau a chynnyrch Llandyrnog

**Ffrwythau a llysiau:** Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau – Richard Davies
**Blodau:** Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau – Olwen Rowlands
**Trefnu blodau:** Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau – Wendy Grey-Lloyd
**Coginio:** Yr arddangosyn gorau – Gwenda Marshall; y nifer mwyaf o bwyntiau – Roger Warner
**Pobl ifanc:** Yr arddangosyn gorau a'r nifer mwyaf o bwyntiau: Theo Martin-Downing
**Crefft:** Yr arddangosyn gorau – Edith Hughes; y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall
**Ffotograffiaeth:** Yr arddangosyn gorau – Amy Weyman
**Adran oedolion:** Y nifer mwyaf o bwyntiau – Gwenda Marshall; hoff arddangosyn y Llywydd – Livia Jones; hoff arddangosyn yr Ysgrifennydd: Hazel Wright
**Llywydd y sioe:** Ruth Griffith, DL; Glanyrafon

Fel pwyllgor, gallwn drefnu, cynllunio a pharatoi'r digwyddiad, ond mater i'r arddangoswyr yw gwneud y sioe yn gymaint o lwyddiant – hebddyn nhw does gennym ni ddim sioe. Ond roedden ni'n siomedig gyda nifer y ceisiadau a ddaeth gan bobl ifanc eleni. Er bod dros 40 o blant o Ysgol Bryn Clwyd wedi cystadlu, yn anffodus roedd 10 dosbarth yn yr adran hon **heb unrhyw gystadleuwyr o gwbl**!

Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, dewch i ni wneud ymdrech arbennig i annog plant i arddangos yn ein sioe. Wedi'r cyfan, nhw yw dyfodol y sioe.

Cyflwynodd Llywydd y llynedd yn garedig rodd i'r sioe gan ddymuno ei defnyddio er lles y plant. Gyda hyn mewn golwg, fe brynon ni hadau blodau gwyllt i'w rhoi i'r holl blant oedd yn wedi cystadlu, ynghyd â deunydd peintio wynebau. Byddwn yn mynd i'r ysgol i gyflwyno'r gwobrau ariannol a'r hadau i'r plant, a bydd hyn yn gyfle delfrydol i ni hyrwyddo'r sioe.



*Jini Williams*



*Penri Williams*



*Stondin y Gymdeithas Hanes*




*Stondin Sefydliad y Merched*



*Gwilym Williams*




*Rhiannon Griffith*





*Roger Warner*







*Wendy Charles Warner (uchod)*









*Roedd peintio wynebau, stondin hufen iâ Chilly Cow, a stondinau'r Gymdeithas Hanes, y Brownies, a Sefydliad y Merched i gyd yn cyfrannu at lwyddiant yr achlysur.*

Mae canlyniadau a lluniau buddugwyr y sioe gŵn yn yr ochr Saesneg (i roi mwy o le i ddangos lluniau o'r sioe!)

# Plas Ashpool

Mae cryn dipyn o amser wedi bod ers i mi ysgrifennu atoch ddiwethaf ac mae nifer o bobl wedi bod yn holi sut mae'r sgubor yn dod ei blaen, felly dyma roi ychydig o fanylion i chi.

Ond yn gyntaf mae angen i ni droi'r cloc yn ôl 50 mlynedd bron i'r diwrnod, adeg fy mharti pen blwydd yn 18 oed. Roedden ni'n byw ym Mhlas Ashpool ers rhai blynyddoedd erbyn hyn, gan fod fy mam a fy nhad wedi prynu'r tŷ a'r tai allan gan Mr Glazebrook. Bryd hynny, doedd y tai allan ddim yn adfeilion fel heddiw, ond roedden nhw heb gael eu defnyddio at eu diben gwreiddiol ers blynyddoedd lawer.

Roedd ein ci defaid yn byw mewn un, a byddai'r defaid yn cael eu hel yn ddiogel yno i baratoi i'w cneifio. Heblaw hynny, doedd fawr ddim yn digwydd ynddyn nhw.

Doeddwn i ddim yn hoff iawn o barti o gwbl, ond am ryw reswm roeddwn i'n dyheu am barti gwahanol ei natur i ddathlu gadael yr ysgol a symud ymlaen i fyd y coleg a thu hwnt. Dwi'n cofio pledio â Dad am gryn dipyn o amser, nes iddo (fel y rhan fwyaf o dadau cariadus ac ufudd) ildio a chytuno i 'sortio' y sgubor ar gyfer yr achlysur mawr. Anfonwyd gwahoddiadau, trefnwyd disgo, cynlluniwyd bwyd a chaniatawyd rhywfaint o alcohol. Dim ond y dechrau oedd hyn. Yna aeth Dad yn ei flaen i osod llawr newydd i'r stafell uwch – yr un presennol yn cael ei ystyried yn anaddas i 50 pâr o draed ddawnsio arno! Disodlwyd rhes o risiau simsan, rhoddwyd sachau am yr holl beryglon oedd yn debygol o daro pennau, a'r ysgubor gyfan wedi'i gorchuddio â llinynnau o oleuadau a phaentiadau jyngl, a grëwyd gan fy ffrindiau mwy artistig.

Cyrhaeddodd y diwrnod ac aeth popeth yn dda, cafwyd llawer o hwyl, heb unrhyw anffawd. Yn sicr, noson i'w chofio. Mae'n debyg ei bod wedi cymryd wythnosau i fy rhieni ddod dros o'r holl ofid o fod yn gyfrifol am gynifer o bobl ifanc yn eu harddegau.

Deng mlynedd ar hugain a mwy yn ddiweddarach, dwi nawr yn gyfrifol am ofalu am yr un adeiladau hyfryd hyn a'u cynnal a'u



cadw. Ond nawr maen nhw'n hen adfeilion. Y to wedi mynd, y lloriau wedi pydru, ffenestri ar goll a hanner y waliau wedi dymchwel ar ôl stormydd, eira a diffyg cynnal a chadw.

Am flynyddoedd lawer, yn ddiarwybod i mi, roedd yr adran gynllunio wedi bod yn erlid fy nhad, gan fynnu ei fod yn atgyweirio'r adeiladau. Roedd o, yn ei henaint, wedi gwthio pob llythyren i gefn droriau ei ddesg. Felly, pan gawson ni'r adeiladau, gwnaethon ni sylweddoli ei bod yn rhaid gwneud rhywbeth. Bydd unrhyw un sydd erioed wedi bod yn ddigon ffodus ac ar yr un pryd yn ddigon anffodus i fod yn berchen ar adeiladau rhestredig yn deall y baich anferthol hwn.

Gydag arian yn brin bryd hynny a phedwar o blant i gyd yn byw gartref, llwyddon ni i berswadio'r cynllunwyr y byddai'r adeiladau, am y tro o leiaf, yn cael eu diogelu rhag syrthio, trwy dynnu'r llechi oedd yn weddill ac amgáu'r ddau adeilad. Dyna sut y buon nhw am sawl blwyddyn nes o'r diwedd, roedden ni mewn gwell sefyllfa ariannol i ymdopi â'r broblem o beth i'w wneud â nhw. Cawsom sawl syniad, nes i ni benderfynu o'r diwedd y gallem wneud elw ar y gost enfawr o adfer un o'r sguboriau drwy gynnal priodasau ynddi.

Yn ffodus i ni, daeth pandemig Covid gan roi stop ar y cynlluniau hynny. Dwi'n dweud, yn ffodus, oherwydd erbyn hyn dwi'n teimlo y gallai hwn fod yn brosiect rhy fawr i ni , yn ein hoed ni. Yn lle hynny, llety gwyliau oedd ein dewis nesaf a dechreuodd y gwaith. Wrth

# Plas Ashpool: parhad

edrych arno rŵan, wedi'i gorffen, mae'n anodd weithiau cofio sut olwg oedd arni ar ddechrau'r ymdrech. Fodd bynnag, edrychwch ar draws y buarth ar y sgubor nenfforch hynafol, sydd heb ei chyffwrdd eto, a dyna chi.

Ailadeiladwyd cyplau derw â llaw, defnyddiwyd miloedd o frics i ailosod waliau oedd wedi cwympo, archebwyd cannoedd o lechi i gymryd lle'r hen rai oedd wedi llithro i'w tranc dros y blynyddoedd, gosodwyd lloriau derw newydd ac yn y blaen ac ymlaen ac ymlaen... Diolch o galon i fy ngŵr gwych a drefnodd y cyfan yn feistrolgar.

Nawr, gyda llai o fewnbwn gennyf fi a'n teulu, mae'r prosiect wedi'i gwblhau ac mae'r sgubor yn sefyll yn falch unwaith eto. Wrth gwrs, dydy o ddim yr un adeilad ag yr oedd 100, 200, 300, o flynyddoedd yn ôl ond o leiaf, mae'n adeilad sy'n sefyll yn falch, adeilad sydd â phwrpas. Gobeithiwn ei fod yn adeilad y bydd ein hymwelwyr yn mwynhau aros ynddo ac yn cael eu swyno gan bopeth sydd gan ein bro hardd i'w gynnig.

Efallai na fydd ein teulu yn geidwaid ar y sgubor ymhen ychydig gannoedd o flynyddoedd, ond gobeithio y bydd yn gweld ychydig ganrifoedd yn fwy o fywyd pwrpasol ac yn ychwanegu rhagor o chwedlau at ei hanes.

*Fiona Bell*



# Rysáit

RELISH CORBWMPEN
8 cwpan o gorbwmpen wedi'i dorri'n fân
2 gwpan o nionod wedi'u torri'n fan
1 cwpan o bupur coch wedi'i dorri'n fân
½ cwpan o bupur gwyrdd wedi'i dorri'n fân
¼ cwpan o halen
½ llwy de o tyrmerig
2½ gwpan o siwgwr
1½ cwpan o finegr gwin gwyn
1½ llwy de o fwstard sych
1 llwy de o hadau mwstard
½ llwy de o bupur du
2 lwy de o flawd corn
1 llond llwy bwrdd o ddŵr

Cymysgwch y llysiau gyda'i gilydd ac ychwanegwch yr halen. Gadewch nhw am hanner awr ac yna golchwch nhw'n dda a gwaredu unrhyw hylif.
Berwch y siwgwr, y finegr a'r sbeisys mewn sosban fawr ac ychwanegwch y llysiau.
Coginiwch nhw nes bod y llysiau'n dyner a'r hylif wedi tewhau.
Ychwanegwch y blawd i'r dŵr ac yna i'r relish.
Coginiwch nes bod yr hylif yn glir.
Rhowch mewn potiau wedi'u sterileiddio.
Gweinwch gyda chig oer, brechdanau wedi'u tostio, byrgers neu unrhyw bryd y dymunwch.

*Nia Williams*

# Capel y Dyffryn

Llongyfarchiadau i Gwenan Pen y Bryn, ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol – 3ydd yn y gystadleuaeth llefaru unigol a 3ydd yn y ddeuawd cerdd dant, gydag Ynyr Rogers.

| | | |
|---|---|---|
| 03/09 | 9.45 | Parch Andras Iago (Cymun) |
| 10/09 | 11.00 | Parch Megan Williams |
| 17/09 | 9.45 | Parch Nesta Davies |
| 24/09 | 11.00 | Parch Andras Iago |

# Ar y bysys

Dwi 'rioed wedi meddwl am y peth rhyw lawer, i ddweud y gwir, ond ydi bysys wedi chwarae rhan bwysig yn eich bywydau chi?

Dim ond wrth feddwl yn ôl, dwi wedi sylweddoli rhan mor bwysig o 'mhlentyndod i oedd bws, a dweud y gwir – cofiwch 'mod i'n byw mewn ardal wledig iawn. Cyfnod hapus tu hwnt, ac mi ddaru fy nhad a mam, drwy hunanaberth, dwi'n siŵr, sicrhau nad oeddem yn mynd heb ddim, chwaith.

Ond un car oedd gan y teulu, a 'nhad yn mynd a hwnnw i'w waith. Doedd Mam ddim yn dreifio, beth bynnag, felly fel trît yn ystod gwyliau ysgol, y dull o deithio oedd bws. Bws dec sengl i Ddinbych wedyn bws dau ddec i ben y daith – Rhyl gan amla. Os oeddem yn ffodus, roedd modd cael sêt flaen ar y dec ucha a gweld yr olygfa banoramig o'r Dyffryn a phrofi'r cyffro o fynd dros y bont mewn i'r Rhyl a gweld y mor – nes i rywun benderfynu llawer nes mlaen adeiladu gwrthun o adeilad 'pentre plant' – ond stori arall ydi honno.

Felly o bedair oed i fyny hyd at ddwy ar bymtheg – tair blynedd ar ddeg, heblaw am wyliau ysgol, roeddwn ar fws bob dydd. Cerdded i Groesffordd y Waen, bws i Ysgol Gymraeg Dinbych – Ysgol Twm o'r Nant yn fwy diweddar. Wedyn ar ôl dyddiau Twm o'r Nant, bws i Ddinbych a newid bws wedyn i gyrraedd Llanelwy. Dyddiau cynnar a doedd fawr o draffig, dwi'n siŵr, ond sawl mam heddiw fase'n codi llaw ar ddau hogyn bach chwech a phedair oed â *satchel* ar eu cefnau a gadael iddynt grwydro lawr lonydd culion i ddal bws!

Y co sydd genna i ydi bod y bysys cynnar rywbeth yn debyg i'r un yn y golofn nesa a'r dreifar oedd hefyd yn hel y tocynnau neu edrych ar eich *pass*. Roedd criw digon cymysg ar y bws – rhai mwy strydgall na'i gilydd ond doeddem ni 'rioed wedi byw ar stryd, felly doeddwn i 'rioed wedi gorfod fy amddiffyn fy hun, na fy ffrind gorau – fy mrawd, rhag neb na dim. Felly yn anochel, eistedd yn y ffrynt fasen ni ein dau – ran amla mi fase na reiat yn y cefn ac ambell fygyn yn cael ei danio. Doeddwn i ddim am gael fy nghysylltu o gwbl â'r misdimanars – ond mi roeddent yn ddyddiau da.



Ac yn wir, ar fws fel hwn mi welais i'r arwydd am y tro cynta, *Do not stand accumulators on seats*. Gan mai ail iaith i mi ydi Saesneg, ac yn dal i fod, doedd dim syniad genna i tan yn ddiweddar be oedd *accumulator* nes i Mam adrodd hanes ei thaid. Ei orchwyl wythnosol oedd mynd â'r *accumulator* ar y bws bob dydd Sadwrn i Abergele a dod yn ôl efo *accumulator* wedi ei wefru'n llawn – ac mi ddisgynnodd y geiniog. Batri efo cas gwydr yn llawn o asid i bweru'r radio oedd yr *accumulator* a dwi'n dallt rŵan y llanast byddai'r asid yn wneud i frethyn y sêt, heb sôn am pe byddai rywun ddigon anffodus i eistedd ar batshyn tamp digon diniwed yr olwg.

A sôn am fy hen daid, taid fy mam, mae genna i gofnod papur newydd oddeutu 1958/1958 yn cofnodi ei farwolaeth – '*Passing of Britain's oldest organist*'. Roedd yn chwarae'r organ yn Eglwys Sinan, Marli tan ei ganfed blwyddyn – felly mae gan Anwen hanner can mlynedd arall i ddal fyny efo'r hen William Roberts.

Y llun ar y dudalen nesa ydy'r unig lun sydd genna i ohono ac mae'n debyg mai'r unig amser roedd y cetyn allan o'i geg oedd pan oedd yn paratoi am y ciando. Gan ei fod wedi byw i fod bron yn gant oed, mae'n rhaid nad oeddent yn deall bod baco yn beryg yr adeg yna.

# Ar y bysys: parhad



Roedd fy mam, blesio hi, yn defnyddio bws yn rheolaidd iawn. Pe byddai hi ar *Mastermind*, dwi'n siŵr mai amserlen bysus fyddai ei phwnc arbenigol. Roedd ganddi *bus pass* – dal bws i Wrecsam, trio'i gweld hi reit sydyn i Marks and Spencer i brynu tatws King Edward i ginio Sul – a dal yr un bws adre. Roedd ganddi ugain munud i wneud hyn a fyddai'r dreifar ddim yn gadael oni bai bod Mam a'i thatws yn ôl ar y bws.

Roedd ganddi ei ffrindiau bws ac mi fyddent yn mynd i Wrecsam yn eitha rheolaidd, gan fynd drwy lefydd hyfryd fel Graigfechan. Roedd hyn am ddim, wrth gwrs, ac roedd yna hen rhoi'r byd yn ei le. Dwi'n siŵr bod byw ar bensiwn gwlad yn ddigon heriol ac mae amser allan ar y bws y trît, yn tydi? Mi wna i dderbyn y busnes *20 is plenty* 'ma yn gyndyn ac anfoddog, ond gwae Drakeford os wnaiff o hyd yn oed crybwyll gwneud i ffwrdd efo'r *bus pass*. Mi wna i arwain y frwydr i chi – mi fydd yn gwneud i ymgyrch merched Beca edrych fel parti pen blwydd.

Ydach chi'n deall fod yna fws bob awr o Ruthun i Gaer? Y T8, mae'n debyg. Dwi ddim yn annog neb i wario eu harian tros y ffin ond mae gan Gaer cymaint i'w gynnig o ran adeiladau hanesyddol a'r waliau ayb. Cael diod neu ddau a bws adre a dim angen poeni. Dwi ddim yn siŵr faint o gloch mae'r bws ola o Ruthun i Landyrnog – pe byddai Mam o gwmpas mi fase'n dweud wrtha i. Swnio'n ddiwrnod da i mi!

Wrth feddwl am y peth, o ryw 25 oed ymlaen am ryw ugain mlynedd, mi fues i mewn côr ac mi ddaru ni deithio'r helaeth drwy Gymru, dros y ffin ac Ewrop. Ond dim bws roedd angen arnon ni – ond coetsh go iawn y tro 'ma ac yn ddi-os, Rogers Graigfechan oedd yn mynd â ni ac Eric – '*Coach*' i ni – oedd y dreifar. Roedd y siwrnai i gyngerdd neu gystadleuaeth yn reit dawedog, ond ar y ffordd adre mi fyddai'n rhaid stopio mewn tŷ potes. Wedyn canu yr holl ffordd adre yn aml. Roedd Eric yn sant yn rhoi fyny efo hyn i gyd ond roedd yna o hyd gildwrn da iddo. '*What goes on tour stays on tour*', fel mae'r Sais yn ei ddweud. Ie, dyddiau difyr.




Ta waeth, i ble mae hyn i gyd yn mynd?, meddech chi.

Wel, dwi wedi ramblo gormod a dwi di defnyddio gormod o eiriau eisoes – felly mi fydd raid aros tan y mis nesa.

*Bryn Davies*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*



# Hanesion Hazel

Mae'n rhyfeddol sut mae cefn gwlad wedi glasu ar ôl y tywydd crasboeth gawsom ni ynghynt. Mae Bryniau Clwyd yn flanced o biws y grug hardd – arwydd bach cynnar bod Hydref ar ei ffordd. Bydd lliwiau'r tirlun yn newid wrth i'r golau wanio, a bydd y dail yn dechrau trawsnewid yn ara' deg o wyrdd ffres i liwiau melyngoch a brown yr Hydref. Mae'r cnau a'r mwyar duon yn y gwrychoedd yn prysur aeddfedu wrth i ni weld treigl amser tuag at y tymor nesaf. Ta waeth am hynny, dyma amser gorau yn yr ardd lysiau – amser cynaeafu!

Wrth lwc, mi godes y winwins cyn y glaw trwm, ac maen nhw'n sychu yn y tŷ gwydr cyn i mi eu hongian â chortyn yn fy 'nhŷ pobi' tywyll, oerllyd. Efallai mai 'tŷ pobi' i'r gymuned gyfan oedd hwn ers talwm. Mae 'na fwyler copr a lle tân o dano i gynhesu'r dŵr. Dwi wedi gwneud gwaith ymchwil ar hyn, ond, hyd yma'n methu dod o hyd i ddim byd. Erthygl arall i'r *Llais* yn y dyfodol?

Gallwch gadw'r cynhaeaf am fwy o amser wrth storio'r llysiau. Eleni, roedd Bob y Cob yn dal i fwynhau'r afalau *Bramley* ymhell i'r Gwanwyn. Wrth gwrs, ers talwm byddai pobol yn bwyta pa bynnag lysieuyn oedd yn ei dymor – doedd dim ffasiwn beth â mefus adeg Nadolig! Erbyn hyn, mae gennym aceri o dai gwydr a chludiant gwell i ni allu mwynhau popeth drwy'r flwyddyn – ond ar ba draul?

A dydi'r blas ddim 'run fath. Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw wedi llwyddo i gael unrhyw beth tebyg i'r profiad o grensian drwy ffa dringo ffres o'r ardd yng Ngorffennaf, neu flasu tomato ffres ar bnawn poeth o Awst. Yn draddodiadol, gwneud jam, picls, siytni fydde pobol, a'r rhain oedd yn dod â blas ym misoedd y gaeaf.



Eleni, rydw i wedi plannu tsilis coch gwych yn y tŷ gwydr – mi helpiodd y tywydd poeth, ond dydw i ddim yn siŵr iawn sut i'w cadw. Mi wnes eu piclo am y tro cyntaf er mwyn gallu eu rhoi mewn ambell i gawl neu stiw i gael y 'cic' bach ychwanegol. Rydw i wedi piclo winwins o'r blaen, ond dyna'r cwbwl. Felly, gyda help Google mi ddois i o hyd i rysáit a rhoi tro arni.

Mi ges jariau tebyg i rai *Kilner* gan gyd-weithiwr, tynnu'r labeli am ryw bate posh, eu sterileiddio, ac roedden nhw'n berffaith ar gyfer y darnau tsili. Cynhesu finegr seidr efo 'chydig o ddail llawryf, coriander, a hadau mwstard, a dod â nhw i'r berw, a'u tywallt dros y tsilis – hawdd! Doeddwn i ddim wedi defnyddio'r teip yma o jar o'r blaen, ond gyda help fideo ar *YouTube* gan ddyn caredig o'r enw Dilip, mi lwyddais.

Gan fod un gangen o'r teulu'n hanu o'r Iseldiroedd, rydw i'n gwybod yn iawn fod y gair 'picl' yn dod o '*pekel*'. Halen neu heli ydi ystyr '*pekel*' – dau beth pwysig wrth biclo. Roedd fy mam, oedd ag un o'i rhieni yn dod o'r Iseldiroedd, bob tro'n cadw bowlen o giwcymbr wedi'i sleisio mewn finegr a phupur du ffres yn yr oergell. Byddai'n rhoi 'chydig ar gig oer neu bryd efo caws ynddo – ac mi fydda i'n gwneud yn union yr un fath.

Chlywes i am neb yn gwneud hyn, ac mae 'mrawd yn fy herian ac yn fy ngalw'n 'rhyfedd'. Felly, dwi'n cymryd mai rhywbeth y bydden nhw'n ei wneud ar ochor fy nain yn yr Iseldiroedd fyddai hyn. Oes rhywun yn gwybod?

Wel, rydech chi un ai'n caru neu'n casáu picls – tebyg i ddadl y *Marmite*! Ond efo'r holl sbeisys hyfryd sydd ar gael y dyddie yma, pam na drïwch chi ryw bicl neu ddau – maen nhw'n dod â blas arbennig i bryd o fwyd!

Hazel

# Pêl-droed yn Llandyrnog

Er bod yr haf drosodd, rhaid i nisôn am ddwy gystadleuaeth ola Cynghrair Pêl-droed yr Haf Llandyrnog. Aeth dau dîm o’r pentre i gystadlu yn nhwrnamaint dan 11 oed Cynghrair Pêl-droed yr Haf Llandyrnog. Cafodd hwn ei gynnal yn Llanfair DC. Roedd Tîm A yn anffodus iawn i golli ar giciau o’r smotyn yn y gemau cyn-derfynol, a Thîm B yn anffodus i beidio â mynd yn bellach na’r rownd gyntaf.

Cystadleuaeth olaf y Gynghrair oedd y twrnamaint dan 16. Cyrhaeddodd Tîm A (isod) y ffeinal, gan golli i Glawddnewydd o ddim ond 1–0 – yr unig gôl a ildiodd y tîm drwy’r dydd!






*Y crys cartre (uchod),*

*a’r crys oddi cartre.*




Da iawn wir i bawb a fu’n chwarae a diolch yn fawr hefyd i Jimmy McNally ac Ethan Plumb am drefnu a hyfforddi.

Mae tymor 2023–24 bellach wedi dechrau i dîm Llandyrnog United, gyda Sion Morris yn rheolwr newydd ar y tîm cyntaf. Cymerodd Sion yr awenau oddi ar Jimmy McNally tua diwedd y tymor diwethaf, a dyna oedd y dewis amlwg i’w olynu eleni yn barhaol. Aelodau eraill y tîm rheoli yw James Sweetman, hyfforddwr a Jack Cooledge, hyfforddwr ffitrwydd a ffisiotherapydd.

Mae cit newydd gan y tîm am y tymor yma – y cit cartref wedi’i noddi gan Cooke Milking Equipment, a’r cit oddi cartref wedi’i noddi gan MHC. Mae’r clwb yn diolch i Mike McCoole am y dylunio ac i Top Mark Teamwear am gynhyrchu’r crysau.

Pob dymuniad da i Sion a’r tîm am y tymor.

# Sefydliad y Merched



Mwynhaodd aelodau Sefydliad y Merched bnawn hyfryd yn Amgueddfa’r Pumdegau yn Ninbych, yn hel atgofion am eu plentyndod a’r pethau oedd yn cael eu defnyddio yr adeg honno. Wedyn cafwyd te pnawn yn y Lodge i ddathlu pen blwydd Betty.

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan



***Taith flynyddol y Gymdeithas Hanes***

Bore Sadwrn 22ain Gorffennaf, aeth 42 o aelodau a ffrindiau Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan i ymweld â Neuadd Garthewin, (Llanfair Talhaearn, Conwy) y theatr, y capel a'r tir/gerddi trwy ganiatâd y perchennog Michael Grime, a brynodd y stad gan y teulu Wynne yn 1995.

Roedd y grŵp wrth eu bodd yn cael taith dywys gan Michael ei hun, o gwmpas tu mewn y tŷ sydd, wrth gwrs, yn gartref preifat iddo. Eglurodd hanes y tŷ, oedd, mwy na thebyg, yn dŷ hir yn wreiddiol – cafodd ei ail-fodelu a'i ehangu dros y blynyddoedd. Dangosodd nifer o nodweddion allweddol yn cynnwys y lleoedd tân, paneli a'r rhes o glychau'r morynion a'r gweision.

Yn anffodus, pan brynodd y stad, roedd mewn cyflwr truenus a doedd dim dodrefn yn y tŷ o gwbl. Bu'n rhaid iddo fuddsoddi'n helaeth yn ariannol a rhoi o'i amser i adfer y plasty gwyn mawr, y gerddi, ac adeiladau eraill, mor agos â phosib i'w hen ogoniant.

Gellir olrhain hanes Garthewin yn ôl i'r 17eg ganrif, pan briododd Robert Wynne o Melai, Llanfair Talhaearn, â Marged Pryse, etifeddes y stad. Roedd Robert Wynne yn gadlywydd Brenhinol yn y Rhyfel Cartref, ond gallai olrhain ei linach yn ôl i Marchudd ap Cynon, arweinydd o'r nawfed ganrif, a sefydlodd yr Wythfed Llwyth Cymreig. Arhosodd yn y teulu Wynne hyd nes ei werthu am resymau economaidd yn 1995.

Mae rhedeg stad yn gofyn am wahanol ddulliau i'w wneud i dalu, a chael digon o arian i fuddsoddi mewn cynnal a chadw. Roedd aelodau olaf teulu'r Wynniaid wedi etifeddu'r stad ond doedd dim arian i'w redeg.

Daethpwyd ag artistiaid a meddylwyr i Garthewin ac fe drowyd hen ysgubor ddegwm y tu ôl i'r tŷ yn theatr. Yma y perfformiwyd dwy ddrama gyntaf wreiddiol y dramodydd enwog Saunders Lewis am y tro cyntaf, a gellir olrhain cychwyniad Theatr Genedlaethol Cymru i'r theatr yma hefyd. Pan drodd holl ymdrechion y Wynniaid yn fethiant, fe'u gorfodwyd i werthu darnau o dir a bythynnod. Yn y diwedd, rhoddwyd Tŷ Garthewin ei hun, yn ogystal â'r tir a'r adeiladau, ar werth. Ar un adeg, roedd y stad yn 15,000 acer, yn cynnwys pentref Llanfair Talhaearn.

Nid oes llawer o wybodaeth am yr anhedd-dy cyntaf ar y safle. Mae cofnodion yn cyfeirio at dŷ o gyfnod Elizabeth yn y 14eg ganrif gafodd ei ddymchwel, ac yna tŷ Jacobeaidd, a adeiladwyd yn ddiweddarach. Dengys cofnodion yn 1710 fod Dr Robert Wynne, Canghellor Llanelwy, wedi ailadeiladu'r tŷ, ac yna Robert Wynne arall, Uchel Siryf Sir Ddinbych, wedi newid yr adeilad yn y ddeunawfed ganrif.

Mae tŷ presennol Garthewin yn dyddio'n ôl i 1767, ac wedi ei gynllunio gan y pensaer Joseph Turner, Caer. Ychwanegwyd tŵr yn 1870 er mwyn gwneud lle ar gyfer neuadd ddawns, ac yn 1930au aeth y pensaer enwog o Bortmeirion, Clough Williams-Ellis ati i ailfodelu'r tŷ ymhellach, ac ychwanegu teras gardd i'r de o'r tŷ.

Mae 'na nifer o adeiladau hanesyddol rhestredig ar y safle – mae tŷ Garthewin ei hun yn Radd ll*, y capel yn Radd ll, ac mae'r Ystafell Lyfrau ar y brif rodfa i Garthewin hefyd yn adeilad Rhestredig Gradd ll. Mae adeiladau eraill wedi eu rhestru hefyd.

Mae rhai o'r saith coeden ffynidwydd, a enwyd yn '*Charlie's pines*' ac a blannwyd i gefnogi brenin/brenhines C(G)atholig, yn para yno o hyd. Roedd y dull plannu hwnnw yn dangos bod y Wynniaid yn deulu bonedd Pabyddol.






*Arfbais y teulu, o'i gyfieithu'n fras: 'Boed i dy ddrws fod yn agored, dy galon yn fwy llonydd'.*



*Capel Garthewin*

Clywodd y grŵp am rai o gymeriadau diddorol yn nheulu'r Wynniaid (oedd yn byw yng Ngarthewin am dros 1000 o flynyddoedd). Pan oedd y Cyrnol Wynne yn gwasanaethu yn Arabia, cafodd ei herio i ymweld â harîm – gallai cosb am hyn olygu cael ei 'sbaddu. Yn anffodus, cafodd ei ddal, ac fe greodd hyn broblemau etifeddiaeth i'r Wynniaid yn y 19eg ganrif!

Roedd yna Brownlow Wynn Wynne, ŵyr cefnder Robert Wynne, gyda'r cyfenw Cummings. Ond gorfu iddo newid ei gyfenw i Wynne er mwyn mabwysiadu arfbais y teulu Wynne ac etifeddu'r stad. Cafodd ei wraig ddamwain cwch ar y llyn addurnol, ac, yn anffodus, collodd ei phlentyn. Wedi hynny, fe glôdd ei hun yn ei hystafell wely, gwrthod siarad â'i gŵr, ac ymroi i fagu llygod bach gwyn.

Yn dilyn y daith, mwynhaodd y grŵp ginio blasus iawn yn Nhafarn yr *Holland Arms*, Trofarth, yn ymyl Abergele, ac fe gawson nhw groeso cynnes iawn gan y perchnogion.

Bydd cyfarfod nesa'r Gymdeithas Hanes nos Fercher 18 Hydref, pan fydd Mr Berwyn Evans yn sôn am wersyll carcharorion rhyfel Dyffryn Aled.



(*Dde: Michael Grime, y perchennog, yn y theatr*)

# Neges gan ein hoffeiriad

Mae hi'n ddechrau blwyddyn academaidd newydd eto y mis yma. Bydd llawer o athrawon, myfyrwyr ac ystod o wahanol staff yn paratoi i fynd i'r ysgolion a'r colegau – rhai i ysgolion newydd, rhai'n aros yn yr un lle ond yn newid blwyddyn. Bydd llawer yn Ardal Genhadaeth Dinbych yn gweddïo dros bawb yn ein cymunedau fydd yn wynebu blwyddyn newydd, ac yn gofyn am ras a daioni Duw i fod gyda chi ym mwrlwm bywyd a'i amrywiaeth!

Mae gweddi ddyddiol yn fraint ac adnabod Duw yn orfoledd, wrth i ni dyfu yng nghariad Duw. Pam mae cymaint yn gweddïo ar Iesu? Beth mae'n ei olygu?

Wel, mae perthnasau'n gyffrous ac mae ein perthynas â Iesu yn golygu perthynas â'r Duw a greodd bopeth. Bob tro y byddwn ni'n gweddïo, byddwn yn cael mynediad i uniad â Duw cariadus ac amyneddgar. Mae angen Duw arnom ni – mae perthynas â Duw yn beth naturiol ac yn ein helpu i dyfu a'n gwneud yn gyflawn.

Bu eglwys Dduw yn tynnu pobl at ei gilydd erioed – mae'r Duw a'n creodd eisiau i ni ddod i'w adnabod yn well. Gallwn ni wedyn agosáu at yr Iesu a'i groesawu i'n bywydau drwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, wrth gyd-fyw ac annog ein gilydd drwy Iesu Grist i garu Duw a chyd-ddyn. Dyna ddaioni sylfaenol ffydd ac Ysbryd Duw sydd yn tyfu ynom drwy weddi. Daw'r Ysbryd Glân â rhyddid i ni fyw ein bywydau.

'Cariad, Llawenydd, Heddwch, Amynedd, Caredigrwydd, Daioni, Ffyddlondeb, Addfwynder a Hunanreolaeth' – dyna ffrwythau mae'r Ysbryd yn ei dyfu yn ein bywydau (Galatiaid 5.22). Os ydi hyn yn eich cyffwrdd, yna siaradwch ag unrhyw Gristion rydych chi'n ei adnabod. Dewch draw i un o'n heglwysi, darllenwch y Beibl, gweddïwch. Mae Duw bob amser yn barod i'n cyfarfod â breichiau agored.

Beth bynnag wnewch chi'r mis hwn, beth bynnag sy'n digwydd yn eich bywydau chi a'ch cydnabod, bydded i chi adnabod Cariad Duw. Yn Eglwysi'r Genhadaeth, mae rhywun yn gweddïo drosoch chi.

***Parch Martin Pritchard***


hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk


**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Gwasanaeth Benthyca Tabledi a Chromebook**

Os ydych am wella eich sgiliau digidol gallwch nawr fenthyg tabled neu Chromebook o'ch llyfrgell leol. Gallwch gael benthyg dyfais am 6 wythnos a'i defnyddio i gael mynediad i gyrsiau ar-lein, pori'r rhyngrwyd, teipio CV, neu roi cynnig ar ein dewis eang o eLyfrau, llyfrau sain, cylchgronau digidol a phapurau newydd. Cysylltwch â'ch llyfrgell leol am ragor o wybodaeth.

# Dod i adnabod ... Nia Williams

Beth yw dy hanes di hyd yn hyn?

Wedi fy ngeni yn Sir Frycheiniog a fy magu yn Sir Gaerfyrddin. Wedi mynychu prifysgol hynaf Cymru, Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan lle graddiais yn gyntaf yn Ffrangeg ac yna yn y Gymraeg. Ar ôl graddio, gweithio i Fudiad Ffermwyr Ieuainc Cymru fel Prif Swyddog, Gwobr Dug Caeredin, Cyngor Sir Clwyd ac Undeb Amaethwyr Cymru yn Ninbych. Wedi symud i Landyrnog yn 2001 ar ôl bod yn byw yn Llanbedr Dyffryn Clwyd.

**Pa dri lle sy'n golygu rhywbeth arbennig i ti?**

Ardal Pumsaint Sir Gaerfyrddin lle mae unig waith aur Rhufeinig Prydain.

Llambed lle bum yn fyfyriwr am 6 blynedd ar wahân i flwyddyn yn Ffrainc .

Dyffryn Clwyd o le ddaeth rhai o deulu fy nhad – Llanynys.

**Beth sy'n dy wneud di'n hapus a beth sy'n dy wneud di'n flin?**

Hapus: Tywydd braf a phopeth yn tyfu'n llwyddiannus yn yr ardd.

Blin: Pobl sy'n cwyno ond ddim yn barod i wirfoddoli

Pwy fyddet ti'n ei wahodd i ginio, yn fyw neu farw?

Buaswn yn hoffi gwahodd Capten Bennett* yma i holi a yw'r stori'n wir amdano'n eistedd ar y gadair ac atal y lladron rhag dwyn ei drysor tra roedd gweddill ei deulu yn yr eglwys.

*Roedd Capten Bennett yn byw yng nghartref Nia, ac, "Un stori ddiddorol yw honno am Major Bennett yn cuddio'i arian mewn gwagle o dan ei sedd, wrth gael ei ddychryn gan ladron pen-ffordd."

(O *Llandyrnog a Llangwyfan – Trem yn ôl*)

**Townsend Supplies**
Townsend, Denbigh Ll16 3AW
01745 814918

For all farmyard & agricultural accessories & building supplies

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

**Prompt Travel**
Taxi & Private Hire
4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week
Incorporating Vale Private Hire
01824 790485
07974 862027
**Teithiau Prydlon**
Tacsi a Hurio Preifat

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Cymuned



Mab i swyddog gyda'r fyddin ydw i. Cefais fy ngeni yng Nghaeredin a bues i'n byw mewn gwahanol rannau o'r byd nes i fy rhieni setlo yn nhref enedigol mam, Newton-le-Willows, Glannau Mersi. Thomas oedd cyfenw Mam, ac roedd ei hynafiaid yn dod o Ddyffryn Clwyd.

Mae fy nghefndir o ran gwaith yn cynnwys 12 mlynedd fel gynnwr ym Myddin Prydain, 12 mlynedd fel gwas sifil ac yna, hyd yn hyn, 23 mlynedd yn y Gwasanaeth Ambiwlans, yn gyntaf yn Greater Manchester. Yna ers 2007 gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn Llanelwy i ddechrau, yna yn y Rhyl ac am y pedair blynedd diwethaf yn Ninbych. Rwy'n Gynorthwyydd Gofal Ambiwlans ac yn symud cleifion nad ydyn nhw'n rhai brys i ysbytai, oddi wrthyn nhw, a rhyngddyn nhw.

Symudodd fy ngwraig a minnau i Landyrnog yn 2008 – roedden ni wedi edrych ar lawer o lefydd ond roedd y blodau ar y gylchfan yn ein hargyhoeddi mai Llandyrnog oedd y lle i ni.

Fy mhrofiad cyntaf gyda'r Cyngor Cymuned oedd rhoi cyflwyniad am ddiffibrilwyr a'i ddarbwyllo i symud ymlaen a threfnu gosod un o'r rhai cyntaf yn Sir Ddinbych. Gan fod y diffibrilwr wedi'i osod yn y dyddiau cynnar, efallai eich bod wedi sylwi bod ein un ni mewn cabinet gwyrdd – felly roedd hi yn y cyfnod hwnnw. Yn fuan wedyn daeth lle gwag ar y Cyngor Cymuned a chefais fy nghyfethol yn aelod.

Mae fy niddordebau eraill yn cynnwys:

- aelod gweithgar o'r Blaid Lafur – efallai nad ydych yn ymwybodol ein bod bellach mewn etholaeth newydd yn San Steffan o'r enw Dwyrain Clwyd;
- garddio – llysiau yn benodol, mae'r rhewgell yn llawn ffa a phys ar ôl ein haf cynnar ac mae ein ffa rhedwr yn eithaf toreithiog ar hyn o bryd;
- mae ein cŵn yn ein cadw ni'n brysur.

*John McGuire*






*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*